**Cyngor Tref Rhuddlan – Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Chwefror 2023**

**Cyfarfod Hybrid**

**Yn bresennol:**
Y Cynghorydd Mike Kermode (Dirprwy Faer)
Y Cynghorydd Jackie Burnham
Y Cynghorydd Ann Davies (rhithiol)
Y Cynghorydd Reg Davies
Y Cynghorydd Arwel Roberts
Y Cynghorydd Gareth Rowlands
Y Cynghorydd Val Simmons
Y Cynghorydd Bleddyn Williams
Clerc y Dref
Cynorthwyydd Clerigol /Clerc Cofnodion

Hysbyswyd yr Aelodau bod y cyfarfod yn cael ei recordio, sain yn unig.
Roedd 2 aelod o'r cyhoedd yn bresennol, ynghyd â PCSO Barry Williams

**1. Ymddiheuriadau**
Y Cynghorydd Mike Elgin (Maer), Y Cynghorydd Rob Williams
Cadeiriwyd y cyfarfod gan y Cynghorydd Mike Kermode (Dirprwy Faer)
PSCO Philip Roberts

**2. Datgan Buddiant**
Dim

**3. Materion Brys**
Dim

**4. Materion yr Heddlu**
Dywedodd PCSO Williams fod yr heddlu wedi bod yn targedu Ffordd yr Ucheldir a Princes Road wrth ymdrin â goryrru ond nid oedd llawer o achosion. Bydd rhagor o strydoedd yn cael eu targedu yn ystod y 3 neu 4 wythnos nesaf. Awgrymodd yr Aelodau y dylid targedu'r amser pan fydd pobl yn dod adref o'r gwaith yn ogystal â'r cyfnod pan mae pobl yn mynd â phlant i'r ysgol yn y bore ac yn eu casglu yn y prynhawn. Awgrymwyd y strydoedd canlynol fel targedau: yr A525 ger siop Sainsbury's hyd at Ysgol Dewi Sant, Ffordd Newydd, Ffordd Dyserth, a'r A547 wrth ddod i mewn i dref Rhuddlan o Alltmelyd. Bydd PCSO Williams yn rhoi sylw i'r awgrymiadau.

Roedd yr heddlu wedi derbyn cwynion am gerbydau yn gyrru drwy'r groesfan ar y Ffordd Fawr pan fydd y golau'n goch a gofynnwyd i'r Aelodau am eu sylwadau. Dywedodd dau Aelod eu bod wedi clywed am broblemau tebyg.
Roedd un Aelod wedi gweld cerbyd yn defnyddio maes parcio Stryd yr Eglwys i gam-drin unigolyn agored i niwed, a chyfeiriwyd at ddigwyddiad mewn carafan lle cafwyd achos o ddifrod troseddol ond nid oedd yr achosion hyn wedi'u nodi ar yr adroddiadau heddlu diweddar. Bydd y PCSO yn ymchwilio i'r materion hyn.
Dywedodd Aelod arall fod fan Transit wen wedi cael ei pharcio ar gulfan anffurfiol ar Ffordd Abergele ar y ffordd allan o Rhuddlan i gyfeiriad Abergele. Roedd rhywfaint o ddifrod i flaen y cerbyd ac roedd wedi bod yno am tua 3 wythnos. Bydd PCSO Williams yn ymchwilio i'r mater.
Roedd y Cynghorydd Mike Kermode yn awyddus i ddweud wrth yr heddlu a'r Aelodau fod yr heddlu wedi ymdrin â phroblem yn ei gartref mewn ffordd broffesiynol ac effeithlon iawn.
Diolchwyd i PCSO Williams am ddod i'r cyfarfod ac am ei adroddiad, yna gadawodd y cyfarfod.

**5. Cofnodion**

**Cofnodion Cyngor y Dref, 8 Rhagfyr 2022**

Ym amodol ar ddau fân newid, cynigiwyd y cofnodion fel cofnod cywir gan y Cynghorydd Gareth Rowlands, eiliwyd gan y Cynghorydd Arwel Roberts. **Penderfynwyd**.
Llofnodwyd y cofnodion trwy hyn.

**6. Materion yn Codi**

a. **Hyfforddiant Cod Ymddygiad** – Dywedodd dau Aelod eu bod wedi mynychu a gwnaethant sôn am natur statudol yr hyfforddiant hwn. Roedd y Clerc eisoes wedi atgoffa'r Aelodau hynny nad oeddynt wedi mynychu'r hyfforddiant am y dyddiadau nesaf. Yn dilyn trafodaeth am y rhwymedigaeth gyfreithiol i fynychu'r hyfforddiant, cytunwyd y byddai'r Cyngor yn gofyn i'r swyddog monitro gadarnhau beth oedd y dyddiad olaf y gall Aelodau fynychu ar ôl iddynt gael eu hethol a beth oedd canlyniadau peidio â mynychu.
b. **Arwyddion Baw Ci** – Dywedodd yr Aelodau fod diffyg arwyddion ar Ffordd y Rhyl, yn y pant i gyfeiriad siop Sainsbury's. Cynigiodd y Cynghorydd Gareth Rowlands y dylid gofyn yn ffurfiol i CSDd ddarparu rhagor o arwyddion yn yr ardal hon, eiliwyd gan y Cynghorydd Val Simmons. **Penderfynwyd**.
c. **Malurion Coed yn yr afon** – Roedd y Cyngor wedi derbyn ymateb ysgrifenedig gan CNC ac roedd wedi'i anfon i'r Aelodau drwy e-bost.
d. **Y Fynwent** – Dywedodd y Clerc fod CSDd wedi cadarnhau y bydd swyddog yn cyflwyno adroddiad cynnydd yng nghyfarfodydd mis Mawrth a mis Ebrill ac yn mynychu cyfarfod mis Mai.
e. **Costau Trydan** – Mae'r Clerc wedi derbyn dyfynbrisiau wedi'u diweddaru gan gyflenwyr ac mae'r prisiau wedi gostwg. Bydd y Cyngor yn symud at gwmni Nwy Prydain.
f. **Symiau Gohiriedig** – roedd ceisiadau am grantiau wedi cael eu cyflwyno a'u cydnabod.

g. **Gwaith ar y gwrychoedd yng Nghoetiau Postol** – roedd y gorchymyn gwaith wedi cael ei lofnodi a thrafododd yr Aelodau yr angen i oedi'r gwaith er mwyn ystyried gohebiaeth ddiweddar gan Cadw. Cynigiodd y Cynghorydd Gareth Rowlands y dylai'r gwaith fynd yn ei flaen gan ei fod yn waith cynnal uwchben y ddaear. Eiliwyd gan y Cynghorydd Arwel Roberts. **Penderfynwyd**.

h. **Tyllau yn Stryd Gwindy** – mae'r rhain wedi'u trwsio.

**7. Gohebiaeth gan:**

**a. Y Maer**

Cyfeiriwyd yn benodol at fwyty Tseineaidd Fei Von a oedd wedi cyfrannu prosiect bwyd cymunedol i ddathlu'r Flwyddyn Newydd Tseineaidd gan weithio gyda 2 grŵp lleol yn y Ganolfan Gymunedol. Roedd hyn wedi bod yn llwyddiannus iawn. Dywedodd yr Aelodau y dylid canmol y perchnogion am eu haelioni.

**Derbyniwyd yr adroddiad.**

**b. Clerc y Dref a Diweddariad am Gynllun y Dref.**

Roedd y Clerc wedi dosbarthu ei adroddiad cyn y cyfarfod a darllenodd y gwahanol eitemau gohebiaeth a'r diweddariadau am brosiectau yng nghynllun y dref.
Trafodwyd elfennau o'r adroddiad – yn benodol:-

- Llythyr gan Urdd Gobaith Cymru yn cyfeirio at ddarparu gweithgareddau yn Rhuddlan a fydd yn sbarduno cynnydd yn y grant i £500 fel y cytunwyd yn flaenorol, petai'n cael ei gadarnhau.
- Gohebiaeth a dderbyniwyd gan Cadw ynglŷn â gosod coed a meinciau ar Lannau Tref Rhuddlan yn groes i Ddeddf Henebion ac Ardaloedd Archaeolegol 1979. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod cyfarfod safle wedi'i drefnu gyda Cadw ar gyfer dydd Gwener, 17 Chwefror, i drafod ffordd ymlaen. Cytunwyd y dylai'r Maer, y Cynghorydd Reg Davies a'r Clerc fynd i'r cyfarfod. Cynigiwyd gan y Cynghorydd Jackie Burnham, eiliwyd gan y Cynghorydd Val Simmons. **Penderfynwyd**
- Roedd gwybodaeth wedi cael ei rhannu am y Gronfa Ffyniant Gyffredin y mae isafswm gwerth y grant yn £250k. Mae'n bosibl y gallai cynllun grantiau llai ymddangos yn y dyfodol.
- Diweddariad am wahanol brosiectau, gan gynnwys – y dyfeisiau dangos cyflymder (SIDs) sydd ar fin cael eu gosod, arwyddion ffordd ar gyfer y Ganolfan Gymunedol, a'r cynllun ar gyfer llwybr i fynd o amgylch Cae'r Llyngesydd. Penderfynodd yr Aelodau barhau â darpariaeth pwerau dirprwyedig yr Hwb ar gyfer y Maer, y Dirprwy Faer, a'r Cynghorydd Gareth Rowlands gan fod hyn yn rhan o waith prosiect yr Hwb. **Penderfynwyd**.
- Cynigiodd y Cynghorydd Arwel Roberts, eiliwyd gan y Cynghorydd Jackie Burnham y dylid symud ymlaen i dynnu'r goeden a'r gwrych. **Penderfynwyd**.
- Yn dilyn trafodaeth am blannu coeden ger y clwb bowlio ar Gae'r Llyngesydd, cytunwyd y dylai'r Cyngor anfon llythyr i'r Clwb Bowlio i ddiolch am y goeden

ond i ddweud wrth y Clwb i drafod y mater gyda Chyngor y Dref cyn mynd ati i blannu rhagor o goed. Cynigiwyd gan y Cynghorydd Jackie Burnham, eiliwyd gan y Cynghorydd Arwel Roberts. **Penderfynwyd.**

- Rhoddodd y Clerc ddiweddariad i'r Aelodau am yr eitemau sy'n aros i gael eu cwblhau yn yr Hwb, gan gynnwys y contract ar gyfer glanhau'r toiledau gyda CSDd, casglu gwastraff gan CSDd, arwyddion y drysau, darpariaeth rheoli'r gwres o bell, a'r broblem sy'n parhau o ran diffyg darpariaeth Wi-Fi.
- Trafodwyd agoriad yr Hwb, roedd penderfyniad blaenorol wedi cytuno ar ddyddiad o 1 Mawrth ac mae'r penderfyniad hwn yn ddilys am 6 mis. Roedd rhai Aelodau yn awgrymu y dylid cynnal yr agoriad ar ddydd Sadwrn er mwyn rhoi cyfle i ragor o bobl gymryd rhan a chodi ymwybyddiaeth o'r ddarpariaeth. Yn dilyn trafodaeth hir, cynigiodd y Cynghorydd Arwel Roberts, ac eiliwyd gan Cynghorydd Reg Davies, y dylai'r agoriad ar 1 Mawrth gynnwys cyfraniadau gan ddisgyblion Ysgol y Castell, ynghyd â'r Urdd, perfformwyr Cymraeg eu hiaith, ac unrhyw grwpiau preswylwyr hŷn. Cynigiodd y Cynghorydd Jackie Burnham newid i'r cynnig, sef bod y dyddiad a awgrymwyd gan y Cynghorydd Roberts yn cael ei ystyried fel dyddiad yr agoriad swyddogol, ac y bydd diwrnod i'r preswylwyr yn cael ei drefnu ar gyfer dydd Sadwrn. Eiliwyd gan y Cynghorydd Arwel Roberts. **Penderfynwyd**.

**Derbyniwyd yr adroddiad a'r diweddariad ar y prosiectau**

**8. Adroddiadau'r Cynghorwyr Sir**

a. Rhoddodd y Cynghorydd Ann Davies adroddiad llafar a oedd yn cynnwys newyddion am y penderfyniad i dorri'r trydan yn Lôn Pentre, canlyniad cyfarfodydd gyda swyddogion CSDd ynglŷn â'r fynwent, materion draenio ar Ffordd Newydd, a'r materion sy'n parhau ynglŷn â'r ddôl wyllt, yn benodol cyfarfod gyda CSDd i drafod safleoedd posibl yn y dyfodol yn Rhuddlan. Roedd y mater wedi cael ei drafod yn helaeth iawn a chytunwyd y dylid darparu gwybodaeth fanylch i CSDd ar gyfer cyfarfod nesaf y Cyngor er mwyn rhoi cyfle i Gyngor Tref Rhuddlan lunio ymateb. Gan gyfeirio at y ffaith bod y dyddiad cau yn agosáu ar gyfer derbyn sylwadau, a'r ffaith nad oedd negeseuon e-bost swyddog CSDd yn cael eu derbyn yn ddigon prydlon, cynigiodd y Cynghorydd Jackie Burnham, eiliwyd gan y Cynghorydd Arwel Roberts, y dylid anfon llythyr at Graham Boase, Emlyn Jones, a Jason McLellan yn gofyn am ymestyn y dyddiad cau. **Penderfynwyd.**

**Derbyniwyd yr adroddiad**

b. Roedd y Cynghorydd Arwel Roberts wedi dosbarthu ei adroddiad ysgrifenedig a llongyfarchodd y Cynghorydd Ann Davies am ei gwaith ar fater y ddôl wyllt. Manteisiodd y Cynghorydd Roberts ar y cyfle i hysbysu'r Aelodau am ddigwyddiad fel Cadeirydd CSDd ym mwyty Fei Von Rhuddlan ar 27 Ebrill 2023.

**Derbyniwyd yr adroddiad**

**9. Cylchlythyr y Maer**

Roedd y Clerc wedi dosbarthu copi drafft o gylchlythyr er mwyn i'r Aelodau ei gymeradwyo ynghyd â'r costau o'i argraffu a'i ddanfon i aelwydydd Rhuddlan fel ffordd o ddangos gwaith y Cyngor. Cost argraffu oedd £312 a chost danfon oedd £320, gan wneud cyfanswm o £632. Gofynnodd y Cynghorydd Bleddyn Williams am newid ei enw canol o Rees i Rhys a gofynnodd yr Aelodau a fyddai'n bosibl rhoi darn o'r cylchlythyr yng nghylchgrawn y plwyf. Cynigiodd y Cynghorydd Gareth Rowlands y dylai'r costau gael eu cymeradwyo, eiliwyd gan y Cynghorydd Val Simmons. **Penderfynwyd**.

**10. Cofnodion y Pwyllgor Digwyddiadau.**

Esboniodd y Dirprwy Faer fod dau gyfarfod wedi cael eu cynnal ar 24 Ionawr. Roedd un cyfarfod wedi adolygu'r Digwyddiad Carolau Nadolig a gynhaliwyd ar 18 Rhagfyr, ac roedd y llall yn gyfarfod cyhoeddus agored i roi cyfle i grwpiau lleol drafod unrhyw ddigwyddiadau roeddynt yn ystyried eu cynnal yn ystod 2023 i weld a oedd angen unrhyw gymorth ariannol arnynt gan Gyngor y Dref.

a. Adolygiad o'r digwyddiad Carolau Nadolig – Mae stondin y rotari y cyfeirir ato yn dod o Brestatyn, nid y Rhyl. Yn amodol ar y newid hwn, cynigiodd y Cynghorydd Arwel Roberts fod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfod. Eiliwyd gan y Cynghorydd Val Simmons. **Penderfynwyd**
   Cynhelir digwyddiad 2023 ar 16 Rhagfyr
b. Cyfarfod Cyhoeddus Agored – cynigiwyd fel cofnod cywir gan y Cynghorydd Arwel Roberts, eiliwyd gan y Cynghorydd Val Simmons. **Penderfynwyd**.

Dywedwyd wrth yr Aelodau nad yw'r Cyngor yn rhoi cymorth ariannol i bartïon stryd ond mae'n annog strydoedd i drefnu parti os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Derbyniwyd un cais am gymorth ariannol hyd yma a bydd hwn yn cael ei adolygu yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Digwyddiadau.

Yna cafwyd trafodaeth am yr hyn y byddai Cyngor y Dref yn hoffi ei drefnu ar gyfer Coroni'r Brenin. Cynigiodd y Cynghorydd Ann Davies fod y Cyngor yn cyflogi cwmni proffesiynol i godi baneri o'r warchodfa natur i gylchfan y clwb golff ond heb groesi'r briffordd. Eiliwyd gan y Cynghorydd Val Simmons. **Penderfynwyd**.

Cynigiodd y Cynghorydd Jackie Burnham y gellid trefnu cystadleuaeth ar gyfer y busnes â'r addurniadau gorau a'r cartref a'r ardd â'r addurniadau gorau, ynghyd â darparu poteli dŵr i goffáu'r digwyddiad. Eiliwyd gan Val Simmons. **Penderfynwyd**.

Cynigiodd y Cynghorydd Ann Davies gynnal cystadleuaeth ar gyfer y wisg Brenin a Brenhines orau, a dywedodd y byddai hi'n beirniadu'r gystadleuaeth gyda chymorth y Cynghorydd Val Simmons. **Penderfynwyd**.

Wrth grynhoi, gofynnodd y Cynghorydd Kermode am gyhoeddi erthygl yng nghylchgrawn y plwyf a dywedodd y byddai cyfarfod nesaf y pwyllgor digwyddiadau yn cael ei gynnal ar 2 Mawrth.

**11. Cynllun y Dref**

Cyflwynodd y Cynghorydd Mike Kermode fethodoleg bosibl ar gyfer adolygu'r cynllun presennol, a dechrau llunio cynllun newydd. Yn dilyn trafodaeth fer,

cynigiodd y Cynghorydd Gareth Rowlands y dylid cymeradwyo'r fethodoleg, eiliwyd gan y Cynghorydd Arwel Roberts. **Penderfynwyd**.

**12. Goleuadau'r MUGA**

Dywedodd y Clerc fod dau dendr wedi cael eu derbyn a'i fod yn dal i aros am un ar gyfer newid i oleuadau LED gyda darpariaeth i reoli'r goleuadau fel ei bod yn haws newid pa mor aml maent yn cael eu defnyddio. Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa fod darpariaeth o £10k yn y gyllideb ar gyfer hyn eisoes ac esboniodd y Cynghorydd Gareth Rowlands amseriad y gwaith arfaethedig mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod.

**13. Adolygiad o Bolisïau**

a. Rheoliadau Ariannol – cytunwyd ar ddau newid. Yn achos 3.2 *Ni chaiff unrhyw wariant a dynnir a fydd yn fwy na'r cyfanswm a ddarparwyd yn y gyllideb refeniw ar gyfer y dosbarth gwariant hwnnw,* dylid ychwanegu "oni bai fod y Cyngor wedi cymeradwyo hynny". O dan *Contractau* dylid dileu'r ymadrodd *Bydd pob cwmni sy'n cyflwyno tendr yn derbyn amlen wedi'i marcio'n benodol* a dylid rhoi rhywbeth mwy addas ar gyfer yr oes fodern yn ei le.

Cadarnhaodd y Clerc nad oes gan y Cyngor Gofrestr Asedau.

b. Cod Ymddygiad – dim newidiadau ond gwnaeth yr Aelodau fynegi pryderon unwaith yn rhagor am natur orfodol yr hyfforddiant a'r amserlen ar gyfer mynychu'r hyfforddiant, mater a fydd yn cael ei gadarnhau gan CSDd. Ar hyn o bryd mae'r polisi hyfforddiant yn nodi chwe mis.

c. Polisi Datrysiad Lleol – dim angen newidiadau ond cyfeiriodd yr Aelodau at y ffaith bod y defnydd o'r polisi hwn yn cael ei annog a chytunodd y Cyngor y dylid gofyn i'r swyddog monitro a oedd y polisi yn addas ac yn cyrraedd y safon gofynnol.

**14. Cynllunio**

Dim ceisiadau wedi'u derbyn

**15. Y Gyllideb a Materion Ariannol**

a. Ceisiadau Grant – dim wedi'u derbyn
b. Rhestr Daliadau – Roedd y rhestr wedi cael ei dosbarthu eisoes a darllenodd y Clerc y gwahanol daliadau gan roi sylw penodol i'r gostyngiad diweddar yng nghostau trydan ar gyfer y MUGA. Cynigiodd y Cynghorydd Gareth Rowlands y dylid cymeradwyo'r rhestr, eiliwyd gan y Cynghorydd Arwel Roberts. **Penderfynwyd**.

**16. Materion Cymunedol**

a. Dywedodd y Cynghorydd Reg Davies fod rhywun wedi cael anhawster wrth geisio prynu tocynnau mynediad i'r castell ar y diwrnod. Mae'r Clerc yn deall bod tocynnau y telir amdanynt ymlaen llaw yn docynnau blwyddyn ac mae Cadw'n dweud bod modd prynu tocynnau diwrnod gan ddefnyddio arian parod ar y diwrnod. Awgrymodd y dylai Aelodau roi cynnig ar brynu tocynnau eu hunain ac adrodd yn ôl.

Yn dilyn trafodaeth am docynnau am ddim i breswylwyr lleol, cytunodd yr Aelodau i rannu gwybodaeth am docynnau am ddim sydd ar gael yn y llyfrgell.
b. Roedd y Cynghorydd Burnham yn dymuno rhoi gwybod am ddifrod i arwyneb y ffordd ar Princes Road ger yr Odyn
c. Gofynnodd y Cynghorydd Arwel Roberts am wirfoddolwyr i helpu ar stondin raffl yn y farchnad gymunedol ar 18 Chwefror.
d. Roedd y Cynghorydd Mike Kermode yn pryderu ynglŷn â'r cyfarwyddiadau ar y peiriant tocynnau ym maes parcio Stryd y Senedd. Roedd llawer o breswylwyr yn teimlo bod y cyfarwyddiadau yn ddryslyd, yn benodol, sut i newid o un iaith i'r llall. Cytunodd yr Aelodau i ysgrifennu i CSDd i geisio datrys hyn. **Penderfynwyd.**

Nid oedd unrhyw Faterion Rhan 2 i'w hystyried

**17. Dyddiad y cyfarfod nesaf – 9 Mawrth 2023 Cyfarfod Hybrid Llawn o'r Cyngor am 7pm**

Llofnodwyd………………………………………………………………………….Y Cynghorydd Mike Elgin (Maer)